

Editor: Laurie Wright

No. 21 April 2018

Email: aber-gag@outlook.com

Greener Aberystwyth Group

www.aber-gag.org.uk

<https://www.facebook.com/aber.gag/>

Alarming changes on Penglais Campus

Staff changes at the University Estates Department have led to alarming changes to the Campus gardens, created in the 1960s and 1970s, which are listed Grade II* by Cadw for their high quality design and planting.

Great concern has been expressed at the stripping-out last autumn of the mature shrub border below the Hugh Owen building and its replacement with bark and grass. Further radical changes included the removal before Christmas of a long border running from the Student Welcome Centre to the Llandinam building and the clearance at the corner by Cwrt Mawr in January. Current thinking seems to be to clear away shrubs and trees close to buildings.

Following a considerable outcry, representatives of the Welsh Historic Gardens Trust and IBERS have been recruited to an advisory committee, and a firm of consultants is to draw up a Conservation Management Plan to take account of designed landscape and ecological considerations. However this will take many months and in the meantime both the character and the horticultural riches of the campus are changing adversely. Already more than half of the most historically important shrub plantings have been removed, and many of the iconic views familiar from campus literature appear neglected and forlorn.

We hope that this committee will have the clout and the courage to draw on the advice of the relevant authorities and to work with the outside contractor and estates in an intelligent, meaningful way to preserve what is left of the campus gardens before it is too late.



Jumbled items on the once-immaculate lawn beside the Llandinam building. Relocated fragments of two former sculptures sit beside three rocks which belong in the pond, and a memorial bench

Parc y Llyn ponds

In the wildlife area between the cycle track and the river the smaller pond, closest to the white interpretation board, has dried out and grown over completely. The second pond closer to the river, at the base of the large willow, holds water only when the river floods, and dries out in warmer weather.

The council invested significant resources in creating the ponds in Parc y Llyn, in an area which is very short on ponds and pools, and when they were in good condition, they were

a very important habitat for the local newts, toads and frogs, as well as a whole range of freshwater invertebrate life.



Frogs left high and dry in 2017

Park Avenue multi-use track

Although GAG was unhappy about losing 6 mature trees, the cycle route extension has provided funding for further tree planting that could not have been funded by the Parks and Gardens budget. 3 new trees will be planted here in quality tree pits. These will be columnar Pyrus species whose growth will create a suitable canopy that will not require pruning/disfiguring pollarding.

Further towards the Police Station 4 new trees have been planted. GAG hopes to slowly extend Coed Aber planting into town as and when funds become available



Trees lost...



...and trees gained

In brief...

- **Tree trail guided walk** led by Dafydd Fryer for the Aberystwyth Botanical Society, Sunday 29 April. Meet opposite the Starling Cloud at 10 am. All welcome.
- The Town Council welcomes any suggestions for the future management of **North Road Park** which includes the rope labyrinth and picnic area adjacent to the Eye Clinic.
- GAG is contributing to the cost of planting a **new oak tree** at the **Ysgol Cymraeg**.
- **Bird nest boxes** installed by GAG at the cemetery 8 years ago have been checked ready for spring.
- **Report** by Chloe Griffiths on **wildlife surveys at Penparcau**: <http://bit.ly/2I2PDxD> or our website.
- For the **latest news from GAG** it's always worth looking at [www.facebook.com/aber.gag.](https://www.facebook.com/aber.gag/)

Cylchlythyr



Rhifyn 21 Ebrill 2018

www.aber-gag.org.uk

<https://www.facebook.com/aber.gag/>

Grŵp Aberystwyth Gwyddach

Ebost: aber-gag@outlook.com

Llanastr ar y Campws

Mae newidiadau brawychus wedi digwydd yng ngerddi Campws Penglais yn sgil newidiadau staff yr Adran Stadau. Creuwyd y gerddi yn y chwedegau a'r saithdegau. Oherwydd y safon uchel o'r cynllun a'r gosodiad mae CADW wedi rhoi Gradd II* iddynt.

Mynegwyd pryder mawr wrth weld y llwyni godidog o dan adeilad Hugh Owen yn cael eu tynnu allan, a rhysgl a glaswellt yn cael eu rhoi yn eu lle. Bellach cyn Nadolig tynnwyd y border hir rhwng y Ganolfan Groesawu Myfyrwyr ac Adeilad Llandinam, ac yn Ionawr cliriwyd y gornel wrth Neuadd Cwrt Mawr. Yn ôl pob golwg, y polisi ydy tynnu coed a llwyni sy'n agos i adeiladau.

Ar ôl protestiadau, apwyntiwyd cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru ac IBERS i bwyllgor ymgynghorol. Bydd cwmni ymgynghorwyr yn llunio Cynllun Rheoli Cadwriaeth i ystyried y ffactorau cadwriaeth a rheolaeth. Yn anffodus, bydd hyn yn cymeryd misoedd; yn y cyfamser mae cymeriad a chyfoeth garddwriaethol y campws yn dirwyddo. Mae dros hanner y planhigion pwysig hanesyddol wedi diflannu ac mae golygfeydd eiconig sy'n ymddangos yn y taflenni am y campws wedi mynd yn aflêr a thruenus.

Gobeithiwn y bydd y pwylgor hwn yn cael y gallu a'r hyder i wrando ar yr awdurdodau perthnasol ac i weithio gyda'r ymgynghorwyr allanol a'r Adran Stadau mewn ffordd gall ac effeithiol i achub beth sydd ar ôl o erddi'r campws – cyn ei bod hi yn rhy hwyr.



Llanastr ar y lawnt wrth Adeilad Llandinam oedd gynt yn berffaith. Darnau o ddau gerflun gyda cherrig sy'n perthyn yn y llyn, gyda mainc coffa.

Pyllau Parc y Llyn

Yn yr warchodfa rhwng y llwybr beicio a'r afon mae'r pwll llai sy'n agosaf at y bwrdd gwybodaeth gwyn wedi sychu yn llwyr a thyfiant drosto. Mae'r pwll arall, sy'n agosach at yr afon, ar waelod gellygen fawr yn dal dwr dim ond pan mae'r afon yn gorlifo, a phan mae'r tywydd yn gynhesach.

Buddsoddodd y cyngor adnoddau sylweddol i greu'r pyllau ym Mharc y Llyn, mewn ardal lle mae pyllau yn brin. Pan oeddent mewn cyflwr da, roeddent yn gynefin pwysig i fadfallod dwr, llyffantod a brogaod, yn ogystal â nifer helaeth o greaduriaid di-asgwrn-cefn dwr croyw.



Brogaod heb ddwr yn 2017

Llwybr beicio Park Avenue

Siom i GAG oedd colli 6 coeden aeddfed, ond talodd estyniad y llwybr beicio am blannu coed na fyddai cyllideb yr adran Parciau a Gerddi wedi gallu eu fforddio. Bydd 3 coeden newydd yn cael eu plannu yma mewn pyllau arbennig safonol. Coed Pyrus colofnog fyddant, fydd yn tyfu canopi sy'n siwtio'r lle, ac ni fydd angen eu difetha trwy eu trimio na'u tocio.

Yn agosach at yr Orsaf Heddlu plannwyd 4 coeden newydd. Mae GAG yn gobeithio ymestyn Coed Aber i mewn i'r dref pan fydd arian ar gael.



Colli coed...



...a chael coed newydd

Yn gryno...

- Taith gerdded ar hyd y llwybr coed a arweinir gan Dafydd Fryer ar ran Cymdeithas Botaneg Aberystwyth, Dydd Sul 29 Ebrill. Man cyfarfod gyferbyn â'r Starling Cloud am 10. Croeso i bawb.
- Mae Cyngor y Dref yn croesawu awgrymiadau am sut i reoli **Parc Ffordd y Gogledd** yn y dyfodol, gan gynnwys y labrinth rhaffau a'r safle picnic wrth y Clinig Llygaid.
- Mae GAG yn cyfrannu at y cost o blannu **derwen newydd** yn yr **Ysgol Cymraeg**.
- Mae GAG wedi sicrhau bod y **blychau nythu** a osodwyd yn y fynwent 8 mlynedd yn ôl yn barod i'r gwanwyn.
- **Adroddiad** gan Chloe Griffiths ar **arolygon bywyd gwylt ym Mhenparcau**: <http://bit.ly/2I2PDXD> neu ar ein gwefan.
- I gael y **newyddion diweddaraf gan GAG** mae hi'n syniad i edrych ar www.facebook.com/aber.gag/.